# Arwain y gwaith o hybu cyfleoedd tai i unigolion

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi'r gofynion wrth arwain y gwaith o hybu cyfleoedd tai i unigolion. Mae hyn yn cynnwys hybu dewisiadau ac anghenion unigolion o ran tai yn ogystal â thrafod a chytuno ar ddarpariaeth tai gyda nhw ac ar eu cyfer.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. nodi a chytuno ar rolau a chyfrifoldebau eich hun ac eraill i hybu cyfleoedd tai i unigolion
2. arwain y gwaith o ddarparu gwybodaeth am fanteision cyfleoedd tai ac effaith gwahaniaethu, gorthrwm ac allgáu cymdeithasol ar unigolion
3. gweithio ar y cyd ag eraill sy'n darparu cyfleoedd tai i nodi a chadarnhau'r hyn y gallant ei gynnig, y cyfleoedd y gallant eu darparu, a'r cyfyngiadau neu'r addasiadau rhesymol sydd eu hangen
4. grymuso eraill i weithio mewn partneriaeth ag unigolion i adolygu a nodi'r opsiynau tai sydd ar gael i gwrdd â'u dewisiadau a'u hanghenion
5. darparu cyfleoedd i unigolion ac eraill werthuso'r manteision posibl, a nodi'r heriau i'r opsiynau tai a mynd i'r afael â nhw
6. cymryd cyfrifoldeb dros sicrhau bod asesiadau risg yn cael eu hadolygu neu eu cwblhau ar gyfer opsiynau tai penodol
7. gweithio ar y cyd ag eraill i gynorthwyo unigolion i sicrhau a chael mynediad at gyfleoedd tai
8. sicrhau bod systemau ar waith i gynorthwyo â'r gwaith o werthuso'r broses o gael mynediad at gyfleoedd tai
9. sicrhau bod adborth yn cael ei adolygu, gan nodi arferion da a mynd i'r afael ag unrhyw newidiadau
10. cwblhau'r cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer arwain y gwaith o hybu cyfleoedd tai i unigolion
11. myfyrio am sut y gwnaethoch chi gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau wrth gaffael gwasanaethau ar gyfer unigolion

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. rôl cyfleoedd tai ar lesiant unigolion
2. effaith allgáu, a gorthrwm cymdeithasol a strwythurol, ar gyfleoedd tai i unigolion
3. cyfleoedd tai lleol a chenedlaethol, sut i gael gafael arnynt, a'r manteision i unigolion a chymdeithas
4. sut mae arwain o ran defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma wrth hybu cyfleoedd tai i unigolion
5. sut mae defnyddio ymchwil sy'n seiliedig ar dystiolaeth i arwain y gwaith o hybu cyfleoedd tai
6. sut mae defnyddio dyfeisiau ac adnoddau digidol i hybu cyfleoedd tai
7. dulliau i gyflwyno gwybodaeth er mwyn annog diddordeb mewn cyfleoedd tai
8. sut mae arwain o ran urddas, caredigrwydd a thosturi wrth hybu cyfleoedd tai i unigolion
9. sut mae cynorthwyo rheoleiddio emosiynol wrth hybu cyfleoedd tai
10. sut mae grymuso eraill i nodi manteision a heriau cael gafael ar gyfleoedd tai i unigolion, a sut i fynd i'r afael â nhw
11. dylanwad niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol ar y cyfleoedd tai a ddarperir
12. sut mae cefnogi eraill i ystyried dylanwad diwylliant a chefndir ar ddewis cyfleoedd tai
13. sut mae cynorthwyo eraill i asesu'r risgiau i unigolion wrth gael gafael ar gyfleoedd tai ac i gefnogi cymryd risgiau cadarnhaol
14. y cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen wrth arwain y gwaith o hybu cyfleoedd tai i unigolion
15. theorïau sy'n berthnasol i arwain y gwaith o hybu cyfleoedd tai i unigolion
16. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a'r canllawiau perthnasol ar gyfer arwain y gwaith o hybu cyfleoedd tai i unigolion
17. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth arwain y gwaith o hybu cyfleoedd tai i unigolion
18. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag eraill i arwain y gwaith o hybu cyfleoedd tai i unigolion
19. sut mae eich profiadau personol a'ch rhagfarn ddiarwybod yn gallu effeithio wrth arwain y gwaith o hybu cyfleoedd tai i unigolion, a sut i fynd i'r afael â hyn
20. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth arwain y gwaith o

hybu cyfleoedd tai i unigolion

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

Arwain y gwaith o hybu cyfleoedd tai i unigolion

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD413 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Hybu Cyfleoedd Tai, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |